Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Rôl AGC wrth gefnogi gwelliant



Rydym yn cyfrannu at wella gofal cymdeithasol a gofal plant ar lefel gwasanaethau unigol, ar lefel ranbarthol ac ar lefel y sector yn genedlaethol.

## Sut yr ydym yn gwneud hyn

- Gwrando ar brofiadau pobl.
- Cyflawni ein swyddogaethau craidd o gofrestru, arolygu, adolygu perfformiad a gorfodi i'r safon uchaf.
- Gweithredu dulliau sy'n seiliedig ar gryfder yn ein gwaith a chanolbwyntio ar ganlyniadau i bobl a'u profiadau.
- Egluro'r hyn sy'n dda drwy ein fframweithiau arolygu a'r arweiniad ar sgoriau ein harolygiadau.
- Defnyddio sgoriau i annog darparwyr i anelu at ragoriaeth.
- Dangos lle gellir dod o hyd i wybodaeth, cymorth, cyngor a chanllawiau.
- Darparu canllawiau ar feysydd dim ond AGC sy'n gallu gwneud.
- Defnyddio a rhannu'r hyn a wyddom i nodi themâu, tueddiadau ac achos sylfaenol yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella mewn gwasanaethau a sectorau.
- Cydweithio â'n partneriaid i ledaenu arferion da a llywio gweithgarwch gwella.
- Rhannu'r hyn a welwn sy'n gweithio'n dda a meysydd i'w gwella drwy ddigwyddiadau a seminarau.
- Cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar dueddiadau a themâu sy'n codi o'n gwaith.
- Cynnal adolygiadau thematig gan sicrhau bod y dysgu yn cael ei rannu.
- Ymgymryd ag arolygiadau ar y cyd i gefnogi'r gwaith o wella darpariaeth gwasanaethau ar draws systemau.
- Dysgu o'n gwaith ar feysydd fel sicrwydd ansawdd, cwynion a gwybodaeth am berfformiad er mwyn gwella ein gweithgaredd yn barhaus.